

Polisi Profi Fframwaith Diogelu Gwybodaeth



Rhif y Fersiwn:	2
Dogfen Statws:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	19 Ebrill 2018
Cymeradwywyd Gan:	Grŵp Goruchwyllo Rheoli Data a Gwybodaeth
Dyddiad Dod i Rym:	19 Ebrill 2018
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mawrth 2020

1 Diben

Mae'n rhaid i Fframwaith Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol barhau i fod yn addas i'r diben. Yn unol â hynny mae'r polisi hwn yn sefydlu gofyniad ar gyfer profion rheolaidd ar effeithiolrwydd a digonolrwydd mesurau rheoli diogelwch gwybodaeth ac yn diffinio amcanion a chwmpas y profion hynny a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hwy.

2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cynnwys Fframwaith Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol gan ddefnyddio'r un cwmpas â'r un nodir yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

3 Cysylltiad â pholisïau sy'n bodoli'n barod

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth a'r holl bolisïau ategol.

4 Datganiad Polisi

Bydd y Fframwaith Diogelu Gwybodaeth yn cael ei brofi'n rheolaidd i asesu effeithiolrwydd a digonolrwydd y set gyfredol o fesurau rheoli diogelwch gwybodaeth o gwmpas amcanion diogelwch gwybodaeth ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.

5 Polisiïau

5.1 Bydd y profion yn canolbwyntio ar feysydd risg a nodwyd yn yr asesiadau risg cyfnodol o asedau gwybodaeth, adroddiadau archwilio, adolygiadau rheoli ac adroddiadau ar ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth fel y bo'n briodol;

5.2 Gall profion ar effeithiolrwydd a digonolrwydd mesurau rheoli cyfredol diogelwch gwybodaeth a'r prosesau sy'n gysylltiedig â hyn fod ar ffurf adolygiadau o broses, asesiadau

perygl a ddarperir yn fewnol neu'n allanol, profion treiddiad rhwydwaith a/neu wirioneddol, gan ddefnyddio dulliau peirianyddol cymdeithasol a/neu TG a/neu ymarferion gwe-rwydo.

5.3 Bydd natur, amcanion ac amseriad unrhyw ymarfer profi ymddygiadol ledled y Brifysgol yn cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Grŵp Goruchwyliaeth Rheoli Data a Gwybodaeth.

5.4 Bydd canlyniadau'r profion yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad a gyflwynir i'r Grŵp Goruchwyliaeth Rheoli Data a Gwybodaeth a bydd yn hysbysu'r Adolygiad Fframwaith Diogelu Gwybodaeth blynyddol.

6 Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth bydd sicrhau bod profion rheolaidd o'r mesurau rheoli diogelwch gwybodaeth wedi cael eu cynnal yn unol â'r polisi hwn.